



Gwybodaeth am y Polisi Preifatrwydd

YMRWYMIAD

Mae ACT Training yn ystyried preifatrwydd ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid o ddifrif ac mae wedi ymrwmo i ddiogelu gwybodaeth bersonol maen nhw'n ei rhannu gyda ni drwy ein gweithgareddau busnes.

DIBEN

Mae'r Polisi Preifatrwydd yn nodi'r ffordd y bydd y cwmni'n rheoli ac yn diogelu'r data personol sy'n cael ei roi i ni gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

CWMPAS

Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl gwmni ar unrhyw adeg y byddwn yn casglu data personol (gan gynnwys drwy lwyfannau digidol a gwefan y cwmni). Felly dylech ddarllen hwn yn ofalus.

CYFRIFOLDEBAU

Bydd y Rheolwr Cydymffurfio yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi yn cael ei adolygu yn flynyddol o leiaf ac yn unol â newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Bydd y Rheolwr Contractau a Data yn gyfrifol am sicrhau bod yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd yn cael eu briffio ar y polisi a'i gynnwys.

Bydd Rheolwyr Adran yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff maen nhw'n eu rheoli'n uniongyrchol yn glynu wrth y polisi.

CYFATHREBU A STORIO

Bydd y polisi'n cael ei gyfathrebu drwy wefan y cwmni a Cascadego. Bydd y polisi'n cael ei storio ar rwydwaith mewnol y cwmni yn y ffolder polisiau a gweithdrefnau er mwyn diogelu gwybodaeth.

CAIS I NEWID DOGFEN / POLISI

Bydd newidiadau i'r polisi'n cael eu gwneud gan y Rheolwr Cydymffurfio, a dylid gwneud ceisiadau am newidiadau drwy e-bost at roberthaines@acttraining.org.uk.

Mae ein polisi preifatrwydd yn esbonio pa wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu, pam ein bod yn ei chasglu, a sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon. Yn ogystal â hyn bydd y polisi yn esbonio' camau a gymerwn i ddiogelu eich gwybodaeth.

Mae'r polisi hefyd yn egluro eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol.

SUT I GYSYLLTU Â NI AM EICH DATA PERSONOL NEU'R POLISI PREIFATRWYDD HWN

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich data personol neu am y polisi preifatrwydd hwn, anfonwch e-bost atom ar dataprotection@acttraining.org.uk neu ysgrifennu atom ar y cyfeiriad isod:

Swyddog Diogelu Data
ACT Training
Ocean Park House
East Tyndall Street
Caerdydd
CF24 5ET

PA WYBODAETH RYDYN NI'N EI CHASGLU

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych chi fydd yn ein galluogi i ddarparu ein gwasanaethau i chi fel cwsmer neu randdeiliaid y cwmni. Bydd yr holl wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu i ni yn cael ei chofnodi, ei defnyddio a'i hamddiffyn gennym yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018.

Yn gyffredinol byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth at y dibenion canlynol:

- I weinyddu a darparu gwasanaeth rydych chi'n gwneud cais amdanynt neu wedi mynegi diddordeb ynddynt
- Ar gyfer cadw cofnodion mewnol ac olrhain cynnydd yn erbyn y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu
- Byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, i ariannu, cynllunio, monitro ac arolygu dysgu, ac i gynhyrchu cyhoeddiadau ystadegol
- Gyda chyrrff dyfarnu er mwyn gweinyddu darpariaeth y rhaglenni dysgu
- I gyfathrebu gyda chi am y gwasanaethau rydych chi'n gwneud cais amdanynt neu'n mynegi diddordeb ynddynt
- I bersonoli a theilwra unrhyw ohebiaeth y gallwn ei hanfon atoch chi
- I gynorthwyo gydag ymchwiliadau ystadegol bydd

Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio eich gwybodaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Gan drydydd partiön o ddewis, gan gynnwys sefydliadau ymchwil cymdeithasol, i gynnal ymchwil, dadansoddiadau neu i fonitro cyfleoedd cyfartal sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant
- Gan Lywodraeth Cymru a thrydydd partiön sy'n gweithredu ar ei rhan, i gynorthwyo gyda chysylltu eich cofnodion gyda ffynonellau data eraill at ddiben ymchwil ystadegol
- Gallai Llywodraeth Cymru rannu eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a chod post gyda swyddogion cofrestru etholiadol sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau peilot paru data i wella cywirdeb cofrestrau etholiadol
- Gallai eich manylion cyswllt gael eu trosglwyddo i gontractwyr sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), i gynnal cyfweiliadau neu arolygon ar ddysgwyr presennol neu gyn-ddysgwyr, fel rhan o werthusiadau ffurfiol rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd contractwyr yn cysylltu â sampl o unigolion
- Efallai y bydd rhywun yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi gymryd rhan mewn gwerthusiad o'ch profiad personol o weithgarwch dysgu

Os cysylltir â chi, bydd diben y cyfweiliad neu'r arolwg yn cael ei egluro i chi a byddwch yn cael yr opsiwn i gytuno neu anghytuno i gymryd rhan. Bydd contractwyr yn defnyddio eich manylion at ddiben cynnal y gwerthusiad yn unig ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Yna bydd eich manylion yn cael eu dileu unwaith mae'r contract gwerthuso wedi'i gwblhau.

Gallwn hefyd rannu eich gwybodaeth am resymau cyfreithiol os ydyn ni'n credu'n ddidwyll bod mynediad, defnyddio, cadw, neu ddatgelu'r wybodaeth yn angenrheidiol i:

- Fodloni ceisiadau gan gyrrff llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliad i gynorthwyo gyda chanfod, atal unrhyw weithgarwch anghyfreithlon
- Canfod neu atal twyll, materion yn ymwneud â diogelwch, neu faterion technegol
- Cynorthwyo trydydd partiön eraill mewn achosion cyfreithiol

Wrth ddarparu ein gwasanaethau i chi efallai y byddwn yn casglu ac yn storio unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi i ni. Byddwn yn cadw cofnod o'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'ch data personol:

- Eich enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Manylion talu (lle bo'n berthnasol)
- Anabledd, anghenion dysgu ychwanegol neu ofynion iechyd (mae'r rhain yn ddewisol ac rydych chi'n cael y dewis i roi/peidio rhoi'r wybodaeth hon).

- Cyfeiriad IP
- Cyfeiriad MAC
- Stamp dyddiad ac amser

Pan fyddwch yn rhyngweithio gyda llwyfannau digidol y cwmni, yn creu cyfrif ar-lein neu'n cofrestru i dderbyn gohebiaeth marchnata gennym neu'n llenwi un o'n ffurflenni ar-lein neu all-lein, neu'n rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni'n uniongyrchol efallai y byddwn yn casglu ac yn storio unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi i ni. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu gwasanaethau rydych chi'n gwneud cais amdanynt gennym, i gynnal ymchwil ystadegol.

CYFLENWYR

Pan fyddwn yn rhyngweithio gyda chyflenwyr byddwn yn casglu gwybodaeth adnabyddadwy bersonol fel:

- Enw'r gweithiwr
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost gwaith

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn gallu cysylltu â chi am y nwyddau neu'r gwasanaethau rydych chi'n eu cyflenwi i ni, er mwyn ein galluogi i wneud archebion ychwanegol gyda chi a thalu am nwyddau a gwasanaethau rydych chi'n eu cyflenwi i ni. Byddwn yn cadw'r data hwn am 6 mlynedd o'r adeg pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu cyflenwi gennych chi.

CADW EICH DATA

Byddwn yn cadw eich data am cyn hired ag sydd ei angen i ddarparu ein gwasanaethau i chi, neu oni bai bod cyfnod hwy yn ofynnol gan ofyniad cytundebol, cyfreithiol neu gan reoleiddiwr. Mae rhagor o wybodaeth o ran cyfnodau cadw i'w gweld yn ein hysbysiadau preifatrwydd.

CWCIS

Fel gyda nifer o wefannau eraill, rydym yn defnyddio cwcis technoleg safonol ar ein gwefan. Mae cwci yn ffeil fechan sy'n gofyn am ganiatâd i gael ei gosod ar eich cyfrifiadur. Mae'r ffeiliau hyn yn ein helpu i ddadansoddi traffig y we ar bob ymweliad â'n safle. Mae'r cwcis hyn yn ein helpu i ddadansoddi data am ein gwefan a gwella ein gwefan er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion dadansoddi ystadegol yn unig ac yna mae'r data yn cael ei dynnu oddi ar y system.

Gallwch ddewis derbyn neu wrthod y cwcis hyn drwy osodiadau eich porwr gwe i wrthod cwcis os ydych chi'n dymuno gwneud hynny, fodd bynnag, gallai hynny effeithio ar eich defnydd o'r wefan.

DIOGELWCH EICH GWYBODAETH BERSONOL

Rydym yn ystyried diogelwch eich gwybodaeth o ddifrif ac yn gweithio'n galed i sicrhau ei bod yn cael ei gwarchod rhag mynediad heb awdurdod. Mae gennym lenni tân ac amgryptio priodol ar waith ar y cronfeydd data sy'n cadw eich data personol a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn unol â pholisi rheoli mynediad y cwmni'n unig.

Yn ogystal â hyn mae gennym reolaethau corfforol ar waith yn ein hadeiladau a dim ond y gweithwyr hynny sydd angen mynediad at eich data i gyflawni eu swydd fydd yn cael mynediad. Gellir disgyblu gweithwyr neu derfynu eu contract os byddant yn methu â chydymffurfio gyda'r rhwymedigaethau hyn.

Ni fyddwn yn gwerthu, yn dosbarthu nac yn prydlesu eich data personol gydag unrhyw drydydd partion oni bai ein bod yn cael caniatâd penodol neu ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi i ni lle mae'r gyfraith yn caniatáu hynny yn unig. Yn gyffredinol byddwn yn prosesu eich data personol yn y ffyrdd cyffredinol yn unig:

- Wrth gyflawni contract rydyn ni wedi ymrwymo i'w gyflawni gyda chi
- Lle mae'n angenrheidiol i gydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol rydyn ni'n ddarostyngedig iddo
- Yn unol â buddiannau cyhoeddus
- Ar gyfer buddiannau busnes cyfreithlon

EICH HAWLIAU A'CH DATA PERSONOL

- Yr hawl i wneud cais am gopi o'r data personol sydd gennym amdanoch chi
- Yr hawl i wneud cais i ni gywiro unrhyw ddata personol os yw'n anghywir neu wedi dyddio
- Yr hawl i wneud cais i ni ddileu eich data personol (mewn amgylchiadau penodol)
- Yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl rhag prosesu ar unrhyw adeg, lle roedd caniatâd yn sail cyfreithiol dros brosesu'r data
- Yr hawl i wneud cais ein bod yn darparu eich data personol i chi a lle bo'n bosibl, trosglwyddo'r data'n uniongyrchol i reolwr data arall
- Yr hawl, lle mae anghydfod mewn perthynas â chywirdeb neu brosesu eich data personol, i wneud cais i osod cyfyngiad ar brosesu pellach
- Yr hawl i wrthwynebu i brosesu data personol, (lle bo'n berthnasol h.y. lle mae prosesu yn seiliedig ar fuddiannau cyfreithlon (neu gyflawni tasg er budd y cyhoedd/arfer awdurdod swyddogol); marchnata uniongyrchol a phrosesu at ddibenion ymchwil gwyddonol/hanesyddol ac ystadegau
- Cyflwyno cwyn gyda swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Gallwch wneud cais am fanylion y data personol sydd gennym amdanoch chi o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018. Os ydych yn credu bod unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir neu'n anghyflawn, ysgrifennwch atom neu anfon e-bost atom cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodwyd yn adran sut i gysylltu â ni yn y polisi hwn.